# RHEOLIADAU CWYNION MYFYRWYR 2026/2027

| **Teitl**: Rheoliadau Cwynion Myfyrwyr | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad Cyhoeddi** | **Disgrifiad o'r Diwygiad** | **Awdur** | **Cymeradwywyd gan a'r Dyddiad** | **Dyddiad Adolygu Nesaf** |
| 1.0 | Medi 2019 | Rhifyn Cyntaf | Siobhan Coakley | Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd<br>4 Awst 2019 | Mehefin 2020 |
| 2.0 | Medi 2020 | Ail Rifyn | Siobhan Coakley | Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd<br>3 Mehefin 2020 | Mehefin 2021 |
| 3.0 | Medi 2021 | Trydydd Rhifyn | Gwenllian Jones | Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/ Bwrdd Academaidd<br>19 Mai 2021 a Gorffennaf 2021 | Mehefin 2022 |
| 4.0 | Medi 2022 | Pedwerydd Rhifyn | Siobhan Coakley | Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd | Mehefin 2023 |
| 5.0 | Medi 2023 | Pumed Rhifyn | Siobhan Coakley | Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd | Mehefin 2024 |
| 6.0 | Medi 2024 | Chweched Rhifyn | Siobhan Coakley | Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd | Mehefin 2025 |
| 7.0 | Medi 2025 | Seithfed Rhifyn | Louise Neate/Niamh Križan | Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd<br>25 Mehefin 2025 | Mehefin 2026 |
| 8.0 | Medi 2026 | Wythfed Rhifyn | Louise Neate/Niamh Križan | Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd<br>24 Mehefin 2026 | Mehefin 2027 |

**CYNNWYS**

**ADRAN UN:** CYFLWYNIAD ..... 2

**ADRAN DAU:** CWMPAS ..... 3
Cwynion a gwmpesir gan y rheoliadau a'r gweithdrefnau hyn ..... 3
Cwynion na chwmpesir gan y rheoliadau a'r gweithdrefnau hyn ..... 3

**ADRAN TRI:** EGWYDDORION CYFFREDINOL ..... 5
Cyflwyno cwynion ..... 5
Cyflwyno'n ddidwyll ..... 5
Baich a safon y prawf ..... 5
Cyflwyno tystiolaeth ..... 5
Cyflwyno mewn pryd ..... 6
Ymgysylltiad achwynwyr â'r broses ..... 6
Addasiadau rhesymol ..... 7
Dideuddrwydd mewn ymchwiliad ..... 7
Anhysbysrwydd ..... 7
Cyfrinachedd ..... 7
Cwynion yn erbyn aelodau staff ..... 7
Cwynion yn erbyn uwch aelodau staff ..... 8
Cyngor a chymorth i staff ..... 8
Cwynion grŵp ..... 8
Cwynion gan fyfyrwyr ar leoliadau ..... 9
Terfynau amser ..... 9
Ymddygiad afresymol ..... 9
Cyfeirio at weithdrefnau eraill ..... 10
Gweithdrefn Cwyno Myfyrwyr ..... 10

**ADRAN PEDWAR:** MONITRO ..... **Error! Bookmark not defined.**

**ADRAN PUMP:** CWYNION I SEFYDLIADAU ALLANOL ..... **Error! Bookmark not defined.**
Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch (OIA) . **Error! Bookmark not defined.**
Y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol ..... **Error! Bookmark not defined.**
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ..... **Error! Bookmark not defined.**
Lwfansau Myfyrwyr Anabl (DSA) ..... **Error! Bookmark not defined.**

## ADRAN UN: CYFLWYNIAD

1.1 Dylid darllen Rheoliadau Cwynion Myfyrwyr y Brifysgol ar y cyd â'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr.

1.2 Mae Prifysgol De Cymru wedi ymrwymo i ddarparu addysg a chymorth o ansawdd uchel i'w myfyrwyr. Mae llawer o lwybrau ar gael i fyfyrwyr godi unrhyw bryderon neu broblemau sydd ganddynt. Mae'r Brifysgol yn croesawu adborth ynglŷn â'i darpariaeth fel y gall ddatblygu a gwella'r gwasanaethau y mae'n eu darparu.

1.3 Pan ddaw cwyn i law, mae'r Brifysgol yn ymdrechu i'w datrys mor gyflym a theg â phosibl, pa un a yw'r gŵyn yn ymwneud â gwasanaethau a ddarperir gan y Brifysgol, triniaeth gan unrhyw aelod staff, myfyriwr neu ymwelydd, neu unrhyw fater arall.

1.4 Mae Rheoliadau a Gweithdrefnau Cwynion Myfyrwyr y Brifysgol yn berthnasol i'r canlynol:

- Myfyrwyr sy'n astudio gyda Phrifysgol De Cymru.
- Myfyrwyr sy'n astudio yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, o ran y cyfnod adolygu yn unig.
- Cyn-fyfyrwyr, am gyfnod o 3 mis ar ôl gadael y Brifysgol (gweler hefyd adran 3.7 mewn perthynas â phrydlondeb cwynion).
- Myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau'r Brifysgol yn sefydliadau partner y Brifysgol pan fo'r cwynion yn ymwneud â materion academaidd a lle bod y cwrs yn dod o fewn cylch gwaith darpariaeth PDC. Os yw'r sefydliad partner yn gyfrifol am y materion, er enghraifft cyfleusterau a gwasanaethau cymorth myfyrwyr, bydd angen i'r myfyriwr gyrchu gweithdrefn gwynion y sefydliad partner ond bydd ganddo gymorth terfynol cam adolygu Gweithdrefn Cwynion Myfyrwyr y Brifysgol.
- Myfyrwyr sy'n astudio ar leoliadau gwaith, neu sy'n ymgymryd â dysgu seiliedig ar waith.
- Myfyrwyr sydd wedi cael caniatâd cymeradwy i fod yn absennol.
- Prentisiaid. *(D.S. Dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriad at 'myfyriwr/myfyrwyr' neu 'achwynydd/achwynwyr' yn golygu 'prentis/prentisiaid' hefyd. Bydd gwybodaeth adeg derbyn a chanlyniad cwynion myfyrwyr ar gyfer prentisiaid yn cael ei darparu i Ddeon y Gyfadran (neu enwebai), a fydd yn hysbysu cyflogwr y prentis.)*

1.5 Nid yw Rheoliadau a Gweithdrefn y Brifysgol ar gyfer cwynion myfyrwyr yn berthnasol i'r canlynol:

- Y rhai sy'n gwneud cais i astudio ym Mhrifysgol De Cymru; y dylent gyfeirio at y polisi cwynion ac apeliadau ar gyfer ymgeiswyr: https://www.southwales.ac.uk/cy/gwneud-cais/ar-ol-gwneud-cais-/polisi-cwynion-ac-apeliadau-/
- Achwynwyr dienw.

- Trydydd partïon. Mae’r Brifysgol yn disgwyl y dylai myfyrwyr â phryderon fod yn gyfrifol am roi gwybod am y pryderon hyn eu hunain. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol yr ymchwilir i gŵyn gan drydydd parti. Rhaid i'r achwynydd ddarparu rhesymau dilys ar gyfer y cais hwn ynghyd ag awdurdodiad ysgrifenedig ei fod yn hapus i'r trydydd parti weithredu ar ei ran.

- Nid yw'r Brifysgol fel arfer yn ei ystyried yn angenrheidiol i gynrychiolydd cyfreithiol weithredu ar ran myfyriwr oni bai bod rhesymau eithriadol, megis pwyntiau cyfreithiol cymhleth, sy'n golygu bod angen hyn. Bydd penderfyniad ynghylch a ddylid caniatáu cynrychiolydd cyfreithiol yn cael ei wneud gan y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr. Pan na chaniateir cynrychiolydd cyfreithiol, bydd y myfyriwr yn cael ei gyfeirio at ffynonellau cymorth ac arweiniad eraill yn y Brifysgol.

## DRAN DAU: CWMPAS

**Cwynion a gwmpesir gan y Rheoliadau hyn a'r Gweithdrefnau cysylltiedig**

***Materion academaidd***

2.1 Mae materion academaidd yn golygu pryderon penodol sydd o bosibl gan fyfyriwr ynghylch y ddarpariaeth cyrsiau academaidd a gwasanaethau cysylltiedig, gan gynnwys cwynion ynghylch y ffordd wnaeth y Gyfadran gynnal a rheoli apeliadau academaidd. Ni ellir defnyddio cwynion ynghylch y ddarpariaeth a’r ffordd o gynnal cyrsiau academaidd wedi hynny fel rheswm dros apelio yn erbyn penderfyniad bwrdd asesu.

***Profiad myfyrwyr***

2.2 Gall myfyrwyr gwyno am unrhyw agwedd ar eu profiad yn y Brifysgol, gan gynnwys eu dysgu a’u perthynas â’r weinyddiaeth neu wasanaethau cymorth.4

***Gwahaniaethu gan y Brifysgol***

2.3 Gall myfyrwyr gwyno am wahaniaethu gan y Brifysgol mewn perthynas â nodwedd warchodedig. Lle bo hynny'n briodol, gellir cyfeirio hyn at Weithdrefnau Adnoddau Dynol (gweler Adran 3.16).

***Addasiadau ar gyfer anableddau***

2.4 Mae dyletswydd gyfreithiol ar y Brifysgol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb i ddarparu addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr anabl. Os bydd myfyriwr yn gofyn am addasiad gan y Brifysgol ac os bydd y Brifysgol yn penderfynu nad yw’r addasiad yn rhesymol, gall y myfyriwr ddefnyddio’r gweithdrefnau hyn i gŵyno. Gweler hefyd y Broses Achosion Eithriadol, ar y dudalen hon: https://www.southwales.ac.uk/cy/myfyrwyr-presennol/cyngor-ar-anabledd/lwfansau/

**Cwynion na chwmpesir gan y Rheoliadau hyn a'r Gweithdrefnau cysylltiedig**

***Apeliadau academaidd***

2.5 Eir i’r afael ag achosion a gyflwynir gan fyfyrwyr yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan fyrddau asesu yn unol â’r Rheoliadau a’r Weithdrefn Apeliadau Academaidd. Gall myfyrwyr sy’n dymuno cyflwyno apêl geisio cyngor gan Undeb y Myfyrwyr a/neu’r Gwasanaethau Myfyrwyr, a dylent anfon eu cyflwyniad i’r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.

### *Trais, aflonyddu, trosedd gasineb*

2.6 Dylid codi honiadau difrifol gyda'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn y lle cyntaf. Mae tîm Ymateb i Ddatgelu (DRT) y Brifysgol yn darparu cymorth arbenigol i fyfyrwyr sydd â neu sy'n profi unrhyw un o'r canlynol: trais rhywiol, cam-drin domestig, anffurfio organau cenhedlu benywod, trais ar sail anrhydedd, stelcian, priodas dan orfod a thrais ar sail rhywedd. Gall myfyrwyr ofyn am atgyfeiriad at DRT trwy'r tîm Gwaith Achos Myfyrwyr.

### *Camymddwyn neu amhriodoldeb*

2.7 Mae chwythu'r chwiban yn ymwneud â chodi pryderon lle mae risgiau i eraill neu lle mae budd cyhoeddus dilys. Mae'n wahanol i weithdrefnau eraill ar gyfer codi pryderon neu gŵynion oherwydd nad yw wedi'i fwriadu ar gyfer cwynion personol. Dylid codi pryderon am gamymddwyn neu amhriodoldeb trwy bolisi Chwythu'r Chwiban y Brifysgol (y gellir chwilio amdano ar wefan y Brifysgol).

### *Honiadau o gamymddwyn yn erbyn myfyrwyr eraill*

2.8 Mae honiadau o gamymddwyn yn erbyn myfyriwr yn cael eu llywodraethu gan Reoliadau a Gweithdrefnau Camymddwyn Myfyrwyr ac Addasrwydd i Ymarfer. Cyfeiriwch at Adran 3.15 am gŵynion am ymddygiad aelod o staff.

### *Cwynion am Undeb y Myfyrwyr*

2.9 Bydd myfyrwyr sy'n anfodlon ar eu hymwneud ag Undeb y Myfyrwyr yn cael cyfle i drafod eu cwyn gyda'r Undeb yn y lle cyntaf gan ddefnyddio'r gweithdrefnau yn Rheolau Sefydlog Undeb y Myfyrwyr. Rhoddir gwybod am y Weithdrefn bob blwyddyn i'r holl fyfyrwyr drwy gyfrwng cyhoeddiadau a/neu hysbysiadau. Ymdrinnir â chwynion yn brydlon ac yn deg ac os caiff cwyn ei chadarnhau, fe gymerir camau effeithiol i'w datrys.

2.10 Os bydd rhywun yn methu cael ateb boddhaol i'w gŵyn drwy Undeb y Myfyrwyr, neu os bydd yn honni ei fod dan anfantais o ganlyniad i ymarfer ei hawl i beidio â bod yn aelod o Undeb y Myfyrwyr, bydd ganddo/ganddi hawl i apelio at Fwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol, a fydd yn penodi person annibynnol i ymchwilio i'r gŵyn. Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn derbyn adroddiad gan y person annibynnol ac yn penderfynu ar ateb priodol i'r gŵyn, os oes modd. Bydd y weithdrefn yn cynnwys troi at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, sy'n gorff annibynnol, os na fydd y Brifysgol yn gallu rhoi ateb sy'n bodloni'r achwynydd.

### *Cwynion yn ymwneud â barn academaidd*

2.11 Ni fydd y Brifysgol yn ystyried cwynion sy'n ymwneud â barn academaidd yn unig.

### *Cwynion sydd eisoes wedi cael eu hystyried*

2.12 Ni fydd y Brifysgol fel arfer yn ailystyried cwyn gan fyfyriwr sydd eisoes wedi'i hystyried drwy'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr, neu mae'r un materion wedi cael eu trin trwy weithdrefn arall.

*Cwynion am sefydliadau allanol*

2.13 Ni fydd y Brifysgol yn ystyried cwynion am sefydliadau allanol. Dylai'r myfyriwr gŵyno'n uniongyrchol i'r sefydliad hwnnw. Mae hyn yn cynnwys materion sy'n ymwneud â gweinyddiaeth Lwfansau Myfyrwyr Anabl, y dylid cyfeirio cwynion amdanynt at yr awdurdod cyllido perthnasol a'i gyflenwr/gyflenwyr.

*Cwynion ar y cyd (Cyflogwr/Prentis)*

2.14 Pan fydd prentis yn ceisio codi cwyn ar y cyd â'i gyflogwr yn erbyn y Brifysgol, bydd y Brifysgol yn ystyried ffeithiau'r gŵyn ac yn penderfynu, yn ôl ei disgresiwn llwyr, y weithdrefn briodol i'w mabwysiadu. Bydd y gŵyn naill ai'n dilyn y broses a nodir yn y Rheoliadau hyn a'r Gweithdrefnau cysylltiedig neu'n dilyn y broses a nodir yn y Polisi Cwynion Cyflogwyr Prentisiaethau.

*Cwynion lle gellir dod i gasgliad heb ymchwiliad*

2.15 Pan dderbynnir cwyn, ond bod digon o dystiolaeth i ddod i gasgliad, a byddai ymchwiliad yn ddibwrpas, efallai na fydd y gŵyn yn gallu symud ymlaen i Gam 2 o'r Weithdrefn Gwynion Myfyrwyr. Fodd bynnag, mewn achosion o'r fath, bydd y myfyriwr yn cael llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn amlinellu'r canfyddiadau a'r rheswm dros gau'r gŵyn ar y cam hwnnw. Gall y myfyriwr ddefnyddio'r llythyr hwn os yw am herio'r penderfyniad hwn yn allanol e.e. gyda'r OIA.

## DRAN TRI: EGWYDDORION CYFFREDINOL

**Cyflwyno cwynion**

3.1 Rhaid cyflwyno pob cwyn yn unol â'r Rheoliadau a'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr. Os caiff cwyn ei gwneud yn uniongyrchol i'r Is-Ganghellor, neu unrhyw uwch aelod arall o staff y Brifysgol, bydd y gŵyn yn cael ei throsglwyddo i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr, a fydd yn sicrhau ei bod yn cael ei phrosesu'n briodol.

**Cyflwyno'n ddidwyll**

3.2 Mae'r Brifysgol yn rhagdybio bod pob cwyn yn cael ei chyflwyno'n ddidwyll ac ni fydd yn rhoi unrhyw fyfyriwr dan anfantais am gyflwyno cwyn.

**Baich a safon y prawf**

3.3 Mae baich y prawf yn penderfynu pwy sy'n gyfrifol am brofi mater. Ar gyfer apeliadau myfyrwyr, y myfyriwr sy'n gyfrifol am faich y prawf. Mae safon y prawf ar sail pwysau tebygolrwydd, hynny yw ei fod yn fwy tebygol na pheidio bod y materion a arweiniodd at yr apêl wedi digwydd.

**Cyflwyno tystiolaeth**

3.4 Fel arfer, rhaid i gŵynion gael eu cefnogi gan dystiolaeth ategol pan gânt eu cyflwyno. Rhaid darparu tystiolaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Fel arfer ni roddir ystyriaeth i gŵynion nad ydynt yn darparu tystiolaeth o'r fath, oni bai bod yr achwynydd yn gallu rhoi rheswm da dros beidio â darparu tystiolaeth. Mae enghreifftiau o dystiolaeth yn cynnwys adroddiadau gan weithwyr proffesiynol, gohebiaeth ysgrifenedig, gwybodaeth ariannol, datganiadau tystion/ partïon perthnasol neu fanylion tystion y gellir cysylltu â nhw.

3.5 Os bydd myfyriwr yn cyflwyno unrhyw dystiolaeth y darganfyddir wedyn ei bod yn ffug, gellir ymdrin â nhw o dan y Rheoliadau Camymddwyn Myfyrwyr ac Addasrwydd i Ymarfer a'r Gweithdrefnau cysylltiedig. Fodd bynnag, pan fydd myfyriwr yn cynrychioli ei adroddiad o ddigwyddiadau ac mae hyn yn wahanol i adroddiadau eraill, nid yw hyn o reidrwydd yn dod o fewn cwmpas tystiolaeth ffug.

Gofynnir i fyfyrwyr nodi unrhyw dystiolaeth sensitif wrth ei chyflwyno

3.6 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod datblygiadau mewn technoleg fodern yn ei gwneud hi'n haws i bobl wneud recordiadau cudd h.y. recordiadau o gyfarfodydd neu sgyrsiau a wneir heb ganiatâd y cyfranogwyr. Mae'n debyg y bydd recordio galwadau ffôn yn groes i Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2024 os caiff cyfarfodydd wyneb yn wyneb eu recordio, mae'n debyg y bydd y deunydd a gesglir yn cael ei ddal yn groes i hawl Erthygl 8 y cyfranogwr (i fywyd preifat a bywyd teuluol) o dan y Ddeddf Hawliau Dynol a chyfreithiau diogelu data'r DU.

Yn ogystal, dim ond at y diben y cafodd ei wneud y dylid defnyddio recordiad ac ni ddylai fod ar gael i drydydd parti heb gydsyniad yr unigolyn y mae'n cyfeirio ato, oni bai bod rheswm cyfreithlon i wneud hynny.

Am y rhesymau hyn, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd y Brifysgol yn caniatáu defnyddio recordiadau o'r fath fel tystiolaeth mewn achosion.

Y ffeithiau a ystyrir yw:

- I ba raddau y mae'r dystiolaeth yn berthnasol i faterion yr achos, gan gynnwys ystyried natur y dystiolaeth ac a oes tystiolaeth arall, gryfach, ar gael.

- I ba raddau y casglwyd y dystiolaeth yn anghyfreithlon neu y bydd defnyddio'r dystiolaeth yn ymyrryd fel arall â hawliau preifatrwydd.

- I ba raddau y gellir dibynnu ar y dystiolaeth o safbwynt technegol o ystyried ei bod hi'n bosibl ffugio deunydd wedi'i recordio. Mae'n bosibl y gall darparu trawsgrifiad wedi'i chreu'n annibynnol o unrhyw recordiad fod o gymorth i gwrdd â'r gofyniad hwn.

**Cyflwyno mewn pryd**

3.7 Rhaid i bob cwyn gael ei chyflwyno heb fod yn fwy na thri mis ar ôl i'r mater a arweiniodd at y gŵyn ddigwydd. Bydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn ystyried a dylid ymestyn y terfyn amser hwn lle mae rheswm da, wedi'i ategu gan dystiolaeth (os oes angen hyn i wneud penderfyniad ar hwyrder).

**Ymgysylltiad achwynwyr â'r broses**

3.8 Disgwylir y bydd achwynwyr yn ymgysylltu â'r broses mewn modd amserol. Os yw'r achwynydd yn methu ag ymateb i gais am ragor o wybodaeth neu gyfarfod o fewn amserlenni a bennir gan yr aelod o staff sy'n ymdrin â'r achos, heb reswm da (er enghraifft salwch analluog, ac os felly dylid darparu nodyn meddyg), bydd y Pennaeth Achosion Myfyrwyr (neu enwebai) yn atal neu'n cau'r achos. *D.S. Gweler isod lle mae angen hyblygrwydd fel addasiad rhesymol.*

**Addasiadau rhesymol**

3.9 Mae'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr wedi ymrwymo i wneud addasiadau rhesymol i'w phrosesau lle nodir yr angen, er mwyn sicrhau profiad teg i fyfyrwyr. Bydd Gwaith Achos Myfyrwyr yn gofyn i fyfyrwyr a oes angen addasiadau rhesymol arnynt. Os yw myfyriwr yn hysbysu Gwaith Achos Myfyrwyr bod angen addasiadau rhesymol arnynt, os yw myfyriwr wedi'i gofrestru gyda Gwasanaeth Anabledd y Brifysgol, neu os oes gan fyfyriwr Gynllun Cymorth Unigol, os yw myfyriwr wedi cofrestru gyda Gwasanaeth Anabledd y Brifysgol, os oes ganddo Gynllun Cymorth Unigol, trefnir cyfarfod gyda'r Gwasanaeth Anabledd i roi hyn ar waith. Bydd gan y myfyriwr y dewis o fynychu'r cyfarfod hwn; neu, os yw'n well ganddo, bydd yn gallu cyflwyno ceisiadau ysgrifenedig i'w hystyried ymlaen llaw. Bydd canlyniad unrhyw drafodaeth ar addasiadau rhesymol yn cael ei gyfleu i'r myfyriwr i'w gytuno.

**Didueddrwydd mewn ymchwiliad**

3.10 Ni fydd gan y Swyddog Ymchwilio na'r Swyddog Adolygu Cwynion unrhyw fudd materol yn yr achos, neu gysylltiad blaenorol ag ef. Byddent fel arfer yn annibynnol ar y maes pwnc neu adran sy'n destun y gŵyn. Efallai y bydd rhai amgylchiadau lle bydd y gyfadran neu'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr o'r farn bod angen Swyddog Ymchwilio o'r tu allan i'r Brifysgol, er enghraifft lle mae angen gwybodaeth arbenigol. Mewn achosion o'r fath, bydd y partïon perthnasol yn cytuno ar unigolyn priodol.

**Anhysbysrwydd**

3.11 Fel rheol ni fydd y Brifysgol yn derbyn cwynion a wneir yn ddienw, oni bai bod rhesymau eithriadol pam y dylid ymchwilio i'r mater, a darperir tystiolaeth annibynnol. Mewn achosion o'r fath, bydd y penderfyniad i ymchwilio i'r gŵyn yn un y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai). Yn ogystal, gall y ffordd yr ymchwilir ac ymatebir i'r gŵyn newid ac ni fyddai'r achwynydd yn derbyn canlyniad.

3.12 Ni fydd y Brifysgol fel arfer yn ystyried datganiadau tystion, lle mae'r tyst yn mynnu ei fod yn aros yn anhysbys.

**Cyfrinachedd**

3.13 Bydd y Brifysgol yn prosesu'r holl wybodaeth bersonol o dan y weithdrefn hon yn unol â'r Hysbysiad Preifatrwydd Gwaith Achos Myfyrwyr ac fel y mynegir yn y Cynllun Cyfathrebu ar gyfer cwynion myfyrwyr.

3.14 Bydd cyfrinachedd yn cael ei barchu wrth gynnal pob agwedd ar y Rheoliadau a'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr. Fodd bynnag, bydd hawl gan unrhyw aelod staff y gwneir cwyn amdano/amdani i gael gwybod am y gŵyn a'i natur a gweld unrhyw dystiolaeth berthnasol.

3.15 Ni fydd y Brifysgol yn datgelu unrhyw wybodaeth i drydydd partïon ynghylch ymchwiliadau a chanlyniadau achosion cwynion myfyrwyr, oni bai fod eithriadau cyfreithiol o dan gyfreithiau diogelu data'r DU yn berthnasol.

**Cwynion yn erbyn aelodau staff**

3.16 Ar gyfer cwynion ynghylch camymddwyn difrifol gan aelod o staff, cynhelir cynhadledd achos i benderfynu p'un a fydd yr achos yn cael ei ystyried trwy'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr neu drwy'r weithdrefn Adnoddau Dynol perthnasol ar gyfer staff, neu broses briodol arall.

Fel arfer, os yw'r gŵyn yn ymwneud â chamymddwyn honedig aelod o staff, caiff hyn ei ystyried o dan y weithdrefn Adnoddau Dynol, tra bydd cwynion gwasanaeth a gyfeirir at aelod unigol o staff yn cael eu trin o dan y Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr.

3.17 Pan fydd cwynion myfyrwyr yn cael eu hymchwilio gan AD, bydd y canfyddiadau'n cael eu rhannu gyda'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr, er mwyn penderfynu ar ganlyniad i'r achwynydd.

3.18 Os yw'r achwynydd yn anhapus â chanlyniad ystyried ei achos o dan y Rheoliadau Cwynion Myfyrwyr a'r Gweithdrefnau cysylltiedig, neu Weithdrefnau AD yn dilyn atgyfeiriad o'r gŵyn, gall ofyn am adolygiad o'r canlyniad o dan y Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr. Bydd yr achwynydd yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig o'r broses o gyflwyno'r cais am adolygiad, yn dibynnu ar y broses a ddilynwyd.

3.19 Bydd ceisiadau am adolygiadau mewn perthynas ag achosion y mae AD yn ymchwilio iddynt yn archwilio'r canlyniad ar gyfer yr achwynydd ac nid ydynt yn gallu gwrthdroi canfyddiadau disgyblu AD.

3.20 Pan ddarperir tystiolaeth newydd gyda rheswm da yn ystod y cam hwn, bydd hyn yn cael ei rhannu ag AD er mwyn ystyried a oes angen ymchwiliad pellach i ymddygiad yr aelod o staff.

3.21 Unwaith y bydd y weithdrefn/proses fewnol wedi dod i ben, bydd yr achwynydd yn cael Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, a fydd yn ei alluogi i wneud cais i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch am adolygiad o'i gŵyn, ar yr amod bod y gŵyn y maent yn mynd â hi i'r Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn gymwys o dan ei Rheolau.

**Cwynion yn erbyn uwch aelodau staff**

3.22

| Testun y gŵyn | Pwy fydd yn ymdrin â'r gŵyn |
|---|---|
| Deon y Gyfadran | Dirprwy Is-Ganghellor |
| Cyfarwyddwr Adran[1] | Dirprwy Is-Ganghellor |
| Dirprwy Is-Ganghellor | Is-Ganghellor |
| Is-Ganghellor | Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr |

** Mae hyn yn golygu aelod o uwch staff o adran gwasanaethau proffesiynol; er enghraifft, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Ysgrifennydd y Brifysgol (ac ati).*

**Cyngor a chymorth i staff**

3.23 Cydnabyddir y gall ymwneud â chwyn, neu fod yn destun cwyn achosi pwysau ar staff. Mae'r Brifysgol yn rhedeg Cynllun Cefnogi Staff, gellir dod o hyd i fanylion amdano ar wefan Adnoddau Dynol. Yn ogystal, mae gan y Gaplaniaeth brofiad sylweddol o ddelio â materion sensitif ac mae ar gael i gynnig cyngor a chymorth cyfrinachol ffurfiol ac anffurfiol. Gall yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr ddarparu canllawiau gweithdrefnol ar ffurf dogfennau i staff sy'n ymwneud â'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr.

**Cwynion grŵp**

3.24 Pan fydd cwyn yn cael ei chyflwyno gan grŵp o fyfyrwyr, dylid enwebu un aelod o'r grŵp fel y prif gyswllt a'r llefarydd.

Rhaid i bob aelod o'r grŵp gadarnhau yn ysgrifenedig eu bod yn dymuno i'r unigolyn enwebedig weithredu yn y rôl hon a bod y gŵyn yn adlewyrchu eu pryderon yn gywir. Bydd y cyswllt enwebedig yn derbyn diweddariadau ar y gŵyn ar ran y grŵp. Bydd pob aelod o'r grŵp yn derbyn hysbysiad o'r canlyniad yn unigol.

3.25 Cyfrifoldeb y llefarydd yw sicrhau bod yr holl fyfyrwyr sy'n rhan o'r gŵyn yn cael eu cynnwys ar ffurflen gŵyno'r grŵp. Ni fydd aelodau newydd yn cael eu derbyn i'r gŵyn grŵp ar ôl i'r ffurflen derfynol gael ei chyflwyno

3.26 Gall y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu'r enwebai) benderfynu ei bod yn briodol i gŵyn grŵp sy'n cael ei chyflwyno mewn perthynas â materion neu garfannau lluosog gael ei rhannu'n sawl grŵp neu ei thrin yn unigol.

**Cwynion gan fyfyrwyr ar leoliadau**

3.27 Amgylchiadau'r gŵyn fydd yn penderfynu ai'r Brifysgol neu ddarparwr y lleoliad fydd yn ymdrin â'r gŵyn. Os yw'n fwy priodol defnyddio gweithdrefn gŵynion darparwr y lleoliad i ymdrin â'r gŵyn, bydd yr achwynydd yn cael cymorth aelod priodol o staff y gyfadran i fwrw ymlaen â'i gŵyn.

**Terfynau amser**

3.28 Gellir ymestyn terfynau amser o dan y Weithdrefn ar gais yr achwynydd, pan fydd rheswm da dros wneud hynny. Er enghraifft, os oes gan achwynydd afiechyd neu os yw wedi cael profedigaeth deuluol sydd wedi ei (h)atal rhag cyflwyno ffurflen o fewn y terfyn amser a nodwyd. Os bydd achwynydd yn dymuno gwneud cais am estyniad, rhaid iddo/iddi wneud hynny yn ysgrifenedig i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr a gellir gofyn iddynt ddarparu tystiolaeth berthnasol, fel nodyn gan feddyg, i gefnogi'i gais/chais.

3.29 Gall y Brifysgol ymestyn y terfyn amser ar gyfer ymchwilio os bydd cymhlethdod yr achos, neu amgylchiadau annisgwyl eraill, yn golygu bod angen mwy o amser i gwblhau'r ymchwiliad. Bydd yr achwynydd yn cael gwybod am y cynnydd a wnaed a'r rheswm dros unrhyw oedi.

**Ymddygiad afresymol**

3.30 Ni fydd cwynion y mae'r Brifysgol, yn dilyn ystyriaeth gychwynnol, o'r farn eu bod yn flinderus neu'n gŵynion sy'n cael eu dilyn mewn modd afresymol o daer, yn cael eu hystyried a gallent arwain at gamau gweithredu o dan y Rheoliadau Camymddwyn Myfyrwyr ac Addasrwydd i Ymarfer a'r Gweithdrefnau cysylltiedig. Yn y cyd-destun hwn, mae 'afresymol o daer' yn golygu, er enghraifft, bod y gŵyn yn cael ei gwneud mewn ffordd sy'n obsesiynol, ormodol neu ailadroddus, ac sy'n cael effaith negyddol ar gydweithwyr neu waith y Brifysgol, neu a allai gael ei ystyried yn aflonyddu. Gall fod yn un sy'n cael ei ddilyn mewn ffordd sy'n rhwystro gallu'r Brifysgol i gyflawni ei Gweithdrefn Gŵynion Myfyrwyr. Er enghraifft, cwyn y mae'r Brifysgol o'r farn ei bod yn ceisio tarfu neu beri annifyrrwch, neu sy'n galw am wneud iawn heb bwrpas na gwerth sylweddol, yw 'cwyn flinderus'.

3.31 Os bydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) o'r farn bod cwyn yn cael ei chanlyn mewn ffordd afresymol o daer neu flinderus, ysgrifennir at yr achwynydd a rhoddir gwybod iddo/iddi na fydd y Brifysgol yn ystyried y gŵyn ymhellach. Rhoddir rhesymau dros y penderfyniad hwn ac anfonir llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'r Brifysgol.

3.32 Pan fydd myfyriwr yn ymddwyn yn afresymol yn ei ryngweithio â staff y Brifysgol, gellir ymdrin â hyn o dan y Rheoliadau Camymddwyn Myfyrwyr ac Addasrwydd i Ymarfer, os yw'r myfyriwr yn torri'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr.

**Cyfeirio at weithdrefnau eraill**

3.33 Mewn rhai achosion, er enghraifft, lle mae bygythiad o niwed difrifol, neu le ceir arwyddion o ofid sylweddol, gall y Brifysgol benderfynu gohirio'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr hyd nes y ceir cyngor pellach neu gall gyfeirio'r achwynydd at y Weithdrefn Cymorth i Astudio.

3.34 Pan fydd gweithdrefn arall eisoes ar y gweill, bydd Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn penderfynu a yw'n briodol caniatáu i'r gŵyn fynd ymlaen ar yr un pryd â'r weithdrefn arall, neu a ddylid oedi'r gŵyn nes bod y weithdrefn arall wedi'i chwblhau.

3.35 Mewn achosion o'r fath, gall natur a hyd yr ystyriaethau olygu bod angen addasu'r ffurf arferol, neu gellir ei hatal hyd nes y bydd canlyniad ymchwiliadau o dan weithdrefn arall.

3.36 Gall y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) gyfeirio cwyn, neu elfennau o gŵyn, i'w thrin/trin o dan reoliadau neu weithdrefnau eraill y Brifysgol os ystyrir bod hynny'n briodol.

**Gweithdrefn Cwynion Myfyrwyr**

3.37 I gael gwybodaeth am ymdrin â chwynion a gyflwynir o dan y Rheoliadau Cwynion Myfyrwyr, cyfeiriwch at y Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr.

## ADRAN PEDWAR: MONITRO

4.1 Bydd argymhellion sy'n codi o ymchwiliadau i gŵynion myfyrwyr yn cael eu cyfathrebu i'r adran neu'r gyfadran berthnasol i'w symud ymlaen, a gwneir cofnod gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr at ddibenion adrodd.

4.2 Gall y Grŵp Gwaith Achos Myfyrwyr nodi gwersi a ddysgwyd a gwneud argymhellion i'w hystyried gan y Pwyllgor Dysgu, Addysgu a Gwella, y Pwyllgor Graddau Ymchwil, y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a'r Bwrdd Academaidd, fel y bo'n briodol, ar unrhyw faterion sy'n codi o ystyried cwynion sy'n gofyn am welliannau a/neu ddiwygiadau i reoliadau a gweithdrefnau.

## ADRAN PUMP: CWYNION I SEFYDLIADAU ALLANOL

**Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch (OIA)**

5.1 Os yw myfyriwr yn anhapus â chanlyniad y Weithdrefn hon, ar ôl i Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau'r Brifysgol gael ei hanfon, gall gyflwyno cwyn gyda'r OIA. Mae'n ofynnol i fyfyrwyr ddefnyddio gweithdrefn gŵyno fewnol y Brifysgol cyn gwneud cwyn i'r OIA.

5.2 Gellir cael manylion yr OIA a'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r Cynllun drwy www.oiahe.org.uk. Gellir cael gwybodaeth a chyngor pellach gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.

**Y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol**

5.3 Yn dilyn cwyn am gyngor ar ddyled neu gwnsela ar ddyled a ddarparwyd gan y Brifysgol, bydd y myfyriwr yn cael ei hysbysu am ei hawl i ofyn am adolygiad o'i achos gan y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol (http://www.financial-ombudsman.org.uk/) os ydynt yn parhau'n anfodlon â chanlyniad y gweithdrefnau mewnol.

**Medr (Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil)**

5.4 Medr yw'r corff rheoleiddio ar gyfer darpariaeth addysg uwch yng Nghymru. Mewn rhai amgylchiadau, gall myfyrwyr wneud cwyn i Medr. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y dudalen ganlynol: https://www.medr.cymru/cy/cwynion/

5.5 **Lwfansau Myfyrwyr Anabl (DSA)**

Dylid cyfeirio cwynion am lwfansau myfyrwyr anabl (DSA) at yr awdurdod cyllido perthnasol neu at y cyflenwr DSA perthnasol (e.e. Canolfan Asesu Anghenion, cyflenwr Technoleg Gynorthwyol neu ddarparwr Cymorth Anfeddygol). Mae rhagor o wybodaeth am Weithdrefn Gŵynion y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar gael yma: Gweithdrefn gŵyno - Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr - GOV.UK (www.gov.uk)